OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2276 (Cy.166)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 49(2) a 105(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** gorchymyn applied (ynghyd â modifications) (22.11.2012) by The Police and Crime Panels (Application of Local Authority Enactments) Regulations 2012 (O.S. 2012/2734), rhlau. 1(1), 3-6, **Atod. Rhn. 3**

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i bob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod cyfetholedig;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod hwnnw ond sydd—

(a) yn aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod, neu

(b) yn aelod o unrhyw un o gyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau'r awdurdod ac yn cynrychioli'r awdurdod arno,

(**1**) 2000 p.22.

ac y mae ganddo hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn unrhyw un o gyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; ac

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw—

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ca) **[**[F1]cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1),**]**

(ch) **[**[F2]awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo, a**]**

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**2**).

**F1** Geiriau yn ergl. 2 wedi eu mewnosod (5.8.2022) gan Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/805), erglau. 1(2), **2**

**F2** Geiriau yn ergl. 2 wedi eu hamnewid (25.10.2005) gan Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/2929), erglau. 1(1), **55**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Ergl. 2 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

### Yr egwyddorion sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol

**3.** Mae'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi'u nodi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
21 Mehefin 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1995 p.25.
(**3**) 1998 p.38.

## ATODLEN

Erthygl 3

## YR EGWYDDORION

*Anhunanoldeb*

**1.** Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. para. 1 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Gonestrwydd*

**2.** Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. para. 2 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Uniondeb a Gwedduster*

**3.** Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. para. 3 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith*

**4.** Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. para. 4 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Stiwardiaeth*

**5.** Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ddoeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. para. 5 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau*

**6.** Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a manteision, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail rhagoriaeth. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. para. 6 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Cydraddoldeb a Pharch*

**7.** Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen i hybu cyfle cyfartal i bawb, ni waeth beth yw eu gender, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. para. 7 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Bod yn Agored*

**8.** Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. para. 8 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Atebolrwydd*

**9.** Mae'r aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Atod. para. 9 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

*Rhoi Arweiniad*

**10.** Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddwch ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a chyflogeion eraill yr awdurdod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. para. 10 mewn grym ar 28.7.2001, gweler **ergl. 1(1)**

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae adran 49(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy orchymyn, bennu'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol (a ddiffinnir yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn) yng Nghymru.

Mae awdurdodau o'r fath yn cynnwys (ymhlith eraill) cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, ond nid ydynt yn cynnwys awdurdodau heddlu.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r egwyddorion perthnasol.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 05/08/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.